

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,  
Nos Fawrth, 23 Ebrill 2019  
am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

**Presennol:** J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, A Ifan **AI**, A Jones **AJ** (yn y gadair), L Jones **LJ**, E Jones **EJ**,  
EAB Thomas **EABT**, R Owen **clerc**.

**Ymddiheuriadau:** C Jones, OG Roberts, LI M Huws.

## 2. Datgan Diddordeb: Dim

## 3. Arwyddo cofnodion Mawrth 2019.

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **LJ** yn cynnig, **EABT** yn eilio.

## 4. Materion sy'n codi.

4.1 Cadarnhawyd nad oedd unrhyw adborth wedi ei dderbyn gan CSYM ynglyn a trin waliau'r fywent, a mynewgwyd siomedigaeth y cyngor. Nodwyd nad oedd modd symud ymlaen i drin y waliau nes fod cyngor gan CSYM wedi ei dderbyn. Y clerc i ysgrifennu at CSYM i nodi siomedigaeth a'r rhwystredigaeth oedd yn gwynebu'r cyngor oherwydd y diffyg ymateb.


4.2 Derbyniwyd ebost gan Cynghorwr John Griffith yn cadarnhau fod ail osod arwyddion yn y pentref mewn llaw gan yr Adran Briffyrdd.

## 5. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r maes chwarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

Dim i'w adrodd.

## 6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Dim ceisiadau.



# Cyngor Cymuned Bodedern



## 7. Gohebiaeth i'w adolygu

7.1 Derbyniwyd ebost Adolygiad Pwyllgor Safonau a rannwyd drwy ebost. *Y cleric i sicrhau fod y cyngor yn cydymffurfio a'r gofynnion.*

7.2 Derbyniwyd dyfnbris Ysiwriant ar gyfer 2019-20. Cytunwyd I dderbyn y pris o £581.77

## 8. Taliadau i'w gwneud- Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol (Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)

8.1 Mon Grass Cutting      MGC2946      £120.00      Rhif siec 200073

## 9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

9.1 Nodwyd fod cyflwr y palmant yn ddrwg iawn yng ngwaelod Bron y Graig, a nad oedd modd defnyddio'r rhan yma o'r palmant. *Y cleric gysylltu a'r Adran Briffyrdd.*

9.2 Nodwyd fod cyflwr y lon o Fodedern am Llanfugail yn ddrwg iawn. *Y cleric i gysylltu a'r Adran Briffyrdd.*

9.3 Adroddwyd fod safon y gwaith o drin tyllau yn y lonydd yn siomedig iawn, yn enwedig wrth gylchfan yr A55. *Y cleric i fynegi siom i CSYM.*

9.4 Nodwyd fod ordyfaint yng ngwrychynod cefn tai pensiynwyr yn Bro'r Ysgol. *Y cleric i gysylltu a CSYM i weld pwy oedd a cyfrifoldeb i'w trin.*

9.5 Derbyniwyd cwynion ynglyn a'r difrod sy'n cael eu greu i finiau gan gontractwyr sy'n gwagio'r biniau. Yn aml maent wedi eu taflu'n fler, gyda rhai yn cael eu torri yn rheolaidd oherwydd y cam drin. *Y cleric i gysylltu a adran wastraff CSYM.*

## 10. Dyddaida cyfarfod nesaf.

Oherwydd gwyl y banc cytunwyd i gynnal y cyfarfod nos Fawrth, 28 o Fai.



Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Symudol / mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com